

Trafodaethau Erthygl 50 – Papur briffio gan Swyddog Polisi Cytûn

Cytunodd y Cyngor Ewropeaidd gyfarfu ar Ragfyr 14-15 i drafodaethau Erthygl 50 parthed y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd wneud digon o gynnydd i alluogi cychwyn yr ail gyfnod¹.

Fe amlinellir y cytundebau a gafwyd hyd yma yn yr Adroddiad ar y Cyd a gyhoeddwyd ar Ragfyr 8². Mae'r ddogfen yn amwys mewn rhai ffyrdd, a chafwyd amryfal ddehongliadau gan wleidyddion a sylwedyddion yn y DU. Yn ffodus, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ghwneud Cyhoeddiad³, hefyd ar Ragfyr 8, a sgrifennwyd mewn iaith llai aneglur, yn nodi ei ddealltwriaeth o'r hyn a gytunwyd. Er bod yr Adroddiad ar y Cyd yn dweud *nothing is agreed until everything is agreed* (JR, para 5), sy'n gadael peth amheuaeth, mae'n ymddangos yn debygol y bydd y cytundeb cyntaf hwn yn rhan o'r Cytundeb Ymadael terfynol.

Mae'r cytundeb cychwynnol hwn yn ymwneud â thri mater yn bennaf. Mae un o'r rhain (y setliad ariannol) yn fater nad yw Cytûn na'i aelodau wedi gwneud sylwadau amdano, ac felly ni cheir sylwadau yn y papur hwn ychwaith. Ond mae'r ddau arall yn faterion yr ydym wedi eu trafod ac wedi mynegi barn amdanynt wrth ymateb i Senedd a Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

1. Hawliau dinasyddion yr UE yn y DU a dinasyddion y DU yn yr UE.

Mae hwn yn fater a fu o bryder sylweddol i'r eglwysi ers y refferendwm, yn enwedig am fod nifer sylweddol o ddinasyddion yr UE yn aelodau yn eglwysi sy'n gysylltiedig â Cytûn. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod allan yn eglur y prif hawliau fydd yn cael eu gwarantu

The common understanding reflected in the Joint Report means that both Union citizens and United Kingdom nationals, as well as their respective family members can continue to live, work or study as they currently do under the same conditions as under Union law, benefiting from the full application of the prohibition of any discrimination on grounds of nationality. The only restrictions which apply are those derived from Union law.

Those who have not yet acquired permanent residence rights – if they have not lived in the host State for at least five years – will be fully protected by the Withdrawal Agreement, and be able to acquire permanent residence rights also after the United Kingdom's withdrawal.

It has also been agreed that the Withdrawal Agreement will protect the current rights of spouses, registered partners, parents, grandparents, children, grandchildren and a person in a durable relationship, who do not yet live in the same State as the Union citizen or the United Kingdom national, to join them in the future.

In the Commissions view, the reunification right referred to in the previous paragraph shall also cover future partners or spouses of Union citizens and United Kingdom nationals, who are not yet partners or spouses at the 'specified date', as defined above. This important matter should be dealt with in the second phase of the negotiations and will inevitably be linked to the level of ambition of the future partnership between the EU and the United Kingdom.

¹ <http://www.consilium.europa.eu/media/32236/15-euco-art50-guidelines-en.pdf>

² https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/665869/Joint_report_on_progress_during_phase_1_of_negotiations_under_Article_50_TEU_on_the_United_Kingdom_s_orderly_withdrawal_from_the_European_Union.pdf (cyfeirir ato fel JR)

³ https://ec.europa.eu/commission/sites/beta-political/files/1_en_act_communication.pdf (cyfeirir ato fel CE)

According to the understanding, all children will be protected by the Withdrawal Agreement, wherever they are born before or after the United Kingdom's withdrawal, or whether they are born inside or outside the State where the responsible Union citizen or the United Kingdom national resides. The only exception foreseen concerns children born after the United Kingdom's withdrawal and for which the parent not covered by the Withdrawal Agreement has sole custody under the applicable family law. (CE, tt 5-6).

Gall dinasyddion yr UE barhau i gaffael yr hawliau hyn yn y DU, a dinasyddion y DU eu caffael yn yr UE, tan y bydd y DU yn ymadael ar 29 Mawrth 2019. Os cytunir cyfnod pontio, yna gallant barhau i gaffael yr hawliau tan ddiwedd y cyfnod hwnnw (y tebygrwydd yw y bydd hynny oddeutu 31 Rhagfyr 2020). Mae'r cytundeb hefyd yn dweud y bydd y broses i gofrestru'r hawliau hyn yn syml, ac awydd y Comisiwn yw y bydd yn rhad ac am ddim.

Un o oblygiadau hyn yw y bydd angen i'r DU dderbyn goruchafiaeth cyfraith yr UE dros gyfraith y DU yn y maes hwn am hyd bywyd pawb a gynhwysir yn y cytundeb – ymhell dros 100 mlynedd – oni bai i Senedd y DU ddiddymu'r ddeddfwriaeth berthnasol (JR para 36). Nid yw'n eglur pa gamau cyfreithiol fyddai'n agored i ddinasyddion yr UE pe byddai'r diddymu yn digwydd. Bydd gan Llys Cyfiawnder Ewrop rôl uniongyrchol wrth gynorthwyo llysoedd y DU i weithredu'r hawliau hyn am yr wyth mlynedd gyntaf y byddant mewn grym – digon hir i ganiatáu i ddinesydd yr UE sy'n dod i'r DU ar y diwrnod olaf posibl gaffael yr hawliau trwy breswyllo yma am bum mlynedd ac yna dod ag unrhyw achos llys parthed caffael yr hawliau hynny. Ar ôl wyth mlynedd, gall llysoedd y DU ddewis a ydynt am gymryd i ystyriaeth dyfarniadau Llys Cyfiawnder Ewrop ai peidio wrth gyrraedd eu penderfyniadau.

Bydd hawliau dinasyddion y DU yn yr UE yn weithredol dim ond o fewn yr aelod wladwriaeth lle maen nhw'n preswyllo ar y 'dyddiad a bennir' (naill ai diwrnod ymadael neu ddiwedd y cyfnod pontio), yn hytrach na ledled yr UE fel yr oedd llawer wedi gobeithio. Ond fe fydd eu hawliau yn *binding upon the institutions of the Union and on its Member States from its entry into force* (JR, para 36) ac nid oes unrhyw sôn am ddiddymu yn y dyfodol. Byddai gan Lys Cyfiawnder Ewrop oruchwyliaeth barhaol ar y trefniadau hyn ledled yr UE sy'n weddill.

2. Y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon⁴

Mae'r rhan hon o'r cytundeb yn llai pendant na'r gyntaf, gyda materion pwysig wedi eu gohirio tan gyfnod nesaf y trafodaethau. Ys dywed y Comisiwn Ewropeaidd:

Whilst the United Kingdom remains committed to protecting and supporting continued NorthSouth cooperation across the full range of contexts and frameworks, including after withdrawal, the common understanding provides that the United Kingdom aims to achieve this protection and the avoidance of a hard border through the overall EU-United Kingdom relationship. This intention seems hard to reconcile with the United Kingdom's communicated decision to leave the internal market and the Customs Union. (CE, t. 9).

Serch hynny, mae'r Adroddiad ar y Cyd yn cynnwys ymrwymadau arwyddocaol yn hyn o beth, sy'n berthnasol i Gymru a gweddill y DU yn ogystal ag i Ogledd Iwerddon:

- Os na fydd y cytundeb cyflawn rhwng yr UE a'r DU yn caniatáu ffin feddal rhwng dwy diriogaeth yr Iwerddon, fe negodir trefniadau penodol. Fe all y bydd hyn yn anodd, gan fod plaid y DUP yn mynnu na all Gogledd Iwerddon fod â threfniadau gwahanol i

⁴ Rwy'n ddiolchgar i Dr Nicola Brady, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Iwerddon, am ei sylwadau am yr adran hon. Fy nghyfrifoldeb i yw'r adran a gyhoeddir yma.

weddill y DU, a chan fod yr Adroddiad para 50 yn dweud bod rhaid i unrhyw amrywiadau rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y DU gael eu cytuno gan Lywodraeth a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ond nid ydynt hwy yn weithredol ar hyn o bryd.

- *In the absence of agreed solutions, the United Kingdom will maintain full alignment with those rules of the Internal Market and the Customs Union which, now or in the future, support North-South cooperation, the allisland economy and the protection of the 1998 Agreement* (JR, para 49). Mae hyn yn golygu mai'r rhagosodiad, os na cheir cytundeb terfynol rhwng y DU a'r UE, fydd i'r DU a'r UE barhau ag aliniad rhwng trefniadau rheoleiddio y naill a'r llall, o leiaf o ran y sectorau hynny a effeithir gan y ffin yn Iwerddon. Mae'r Atodiad i Ail Linyn Cytundeb Gwener y Groglith 1998⁵ yn rhestru'r rhain fel a ganlyn:

1. *Agriculture - animal and plant health.* [Yn ymarferol, mae pob mater parthed amaeth a bwyd yn fater trawsffiniol]

2. *Education - teacher qualifications and exchanges.*

3. *Transport - strategic transport planning.*

4. *Environment - environmental protection, pollution, water quality, and waste management.*

5. *Waterways - inland waterways.*

6. *Social Security/Social Welfare - entitlements of cross-border workers and fraud control.*

7. *Tourism - promotion, marketing, research, and product development.*

8. *Relevant EU Programmes such as SPPR, INTERREG, Leader II and their successors.* [Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig y dylai o leiaf rhaglenni PEACE ac INTERREG barhau ar ôl Brexit – CE, t. 9].

9. *Inland Fisheries.*

10. *Aquaculture and marine matters*

11. *Health: accident and emergency services and other related cross-border issues.*

12. *Urban and rural development.*

Mae'r farchnad ynni unedig yn Iwerddon a datblygiadau eraill er 1998 yn golygu y bydd y rhestr hon bellach yn hirach.

Effaith hyn yw mai yr hyn a elwir yn Brexit 'meddal' (h.y. ymrwymiad i gadw safonau a rheolau yr UE) yw'r hyn a geir yn yr holl feysydd hyn os na fydd yna ddêl, yn hytrach na Brexit 'caled'. Bydd raid i'r sawl sydd am weld gwahaniaethau yn agor rhwng y DU a'r UE ddangos na fydd hyn yn effeithio ar y ffin yn Iwerddon.

Fe all y bydd hyn hefyd yn effeithio ar dactegau gwleidyddol a seneddol ASau a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, sy'n cefnogi Brexit 'meddal', oherwydd fe all y bydd canlyniad di-gytundeb yn fwy ffafriol iddynt hwy bellach nag i'r sawl sy'n cefnogi Brexit 'caled'.

⁵ http://www.wesleyjohnston.com/users/ireland/today/good_friday/full_text.html

- *The United Kingdom commits to ensuring that no diminution of rights is caused by its departure from the European Union, including in the area of protection against forms of discrimination enshrined in EU law. The United Kingdom commits to facilitating the related work of the institutions and bodies, established by the 1998 Agreement, in upholding human rights and equality standards.* (JR para 53). Mae hyn fel petai'n ymrwymo'r DU i gadw meysydd helaeth o gyfraith yr UE (gan gynnwys, fe dybiwn, Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE, yr oedd y Llywodraeth cyn hyn am ei eithrio rhag ei gynnwys yng nghyfraith y DU).

Yn ogystal, gan fod Llinyn 3 para 2 Cytundeb Gwener y Groglith yn ymrwymo'r DU i gynnwys y cyfan o Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol i gyfraith Gogledd Iwerddon, a chan fod cytundeb y Llywodraeth gyda'r DUP yn rhwystro creu trefniadau gwahanol yng Ngogledd Iwerddon o'i gymharu â gweddill y DU, fe ymddengys fod y Confensiwn felly wedi ei ddiogelu o fewn cyfraith y DU er gwaethaf ymrwymiad blaenorol y Blaid Geidwadol i osod yn ei le 'Bil Hawliau a Chyfrifoldebau Prydeinig'. (Serch hynny, mae'r DUP yn y gorffennol wedi bod yn barod i gefnogi trefniadau gwahanol ar gyfer Gogledd Iwerddon, e.e. o ran datganoli'r Dreth Gorfforaethol, felly efallai na ddylem ddibynnu gormod ar ddigwyddiadau diweddar yn hyn o beth).

- *The people of Northern Ireland who are Irish citizens will continue to enjoy rights as EU citizens, including where they reside in Northern Ireland. Both Parties therefore agree that the Withdrawal Agreement should respect and be without prejudice to the rights, opportunities and identity that come with European Union citizenship for such people and, in the next phase of negotiations, will examine arrangements required to give effect to the ongoing exercise of, and access to, their EU rights, opportunities and benefits.* (JR para 52). Mae hyn yn codi cwestiynau diddorol o ran cynrychioli dinasyddion yr UE sy'n preswyllo yng Ngogledd Iwerddon yn Senedd Ewrop a'u hawl i gymryd achosion i Lys Cyfiawnder Ewrop. Os yw Llywodraeth y DU yn parhau yn ymrwymedig, oherwydd ei pherthynas â'r DUP, i beidio â gwneud trefniadau gwahanol i Ogledd Iwerddon, fe fyddai hynny yn codi'r un materion o ran cynrychiolaeth a hawliau cyfreithiol dinasyddion yr UE yng ngweddill y DU.

Oblygiad pellach i'r ymrwymadau hyn yw bod y cyfyngiad a osodir ar y deddfwrfeydd datganoledig gan Adrannau 10 ac 11 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i beidio â deddfu yn groes i "gyfraith yr UE a gedwir" yn ymddangos bellach yn fwy angenrheidiol nag yr oedd o'r blaen. Os yw'r DU gyfan yn ymrwymedig trwy'r rhan hon o'r Cytundeb Ymadael i aliniad sylweddol gyda'r UE o ran rheoliadau masnach a hawliau dynol, mae'n anodd gweld sut y gellid codi'r cyfyngiad hwn ar hyn o bryd, fel y mae'r llywodraethau datganoledig yn dymuno, gan y gallai unrhyw newidiadau i "gyfraith yr UE a gedwir" olygu bod y DU yn torri ei haddewidion dan y Cytundeb ymadael.

3. Materion eraill

Mae'r Adroddiad ar y Cyd yn cyfeirio at nifer o faterion eraill a fu'n destunau trafod, er nad oes cytundeb terfynol yn eu cylch. Yn eu plith y mae:

- Bydd y DU yn parhau i gyfrannu at raglenni ffoaduriaid yr UE ac i'r Gronfa Ddatblygu Ewropeaidd (yn ymwneud â gwledydd sy'n datblygu yn Affrica, y Caribî a'r Môr Tawel) hyd ddiwedd 2020.
- Cyrhaeddwyd peth cytundeb ynghylch ymadawiad y DU ag Euratom (Cymuned Ynni Atomig Ewrop, a lywodraethir gan gytundeb rhyngwladol ar wahân). Mae Llywodraeth

y DU wedi addo datganiad am dynnu'n ôl o Euratom— a wrthwynebir gan lawer o ASau – cyn Cyfnod Adrodd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn Ionawr 2018.

- *During ... a potential transitional period, the entire acquis – the full corpus of EU law – would continue to apply in the United Kingdom. Any such transitional arrangements would require existing Union regulatory, budgetary, supervisory, judiciary and enforcement instruments and structures to apply.* (CE t. 15). Ni chynhwysir yr amod hwn mor eglur yn yr Adroddiad ar y Cyd ei hun, ond mae'r cytundeb y bydd y DU yn talu'n llawn i gyllideb yr UE tan 31 Rhagfyr 2020 (JR, para 59) eisoes yn awgrymu canlyniad o'r fath. Os cytunir cyfnod pontio, fe fydd yn rhoi i lywodraethau'r DU a'r gwledydd datganoledig tan 31 Rhagfyr 2020 i baratoi a chytuno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol dan Fil yr UE (Ymadael) a deddfwriaeth gyffelyb. Mae hyn yn amserlen fwy realistig na cheisio gorffen y gwaith erbyn 29 Mawrth 2019, sef yr hyn a fwriedir yn swyddogol ar hyn o bryd.
- Fe fydd cydweithredu o ran yr heddlu a materion troseddol, a llawer o rai eraill, a ddechreuir cyn ymadael (neu, fe awgrymir, cyn diwedd y cyfnod pontio), yn parhau ar ôl i'r DU adael. Mae hyn yn pwysleisio bod yr hyn a awgrymir bellach i bob pwrpas yn ymadawiad graddol â'r UE yn hytrach nag yn rhwyg sydyn. Tra bydd hyn yn wleidyddol anodd i rai, fe fydd yn caniatáu i newidiadau i fframwaith ddeddfwriaethol a chyfansoddiadol y DU gael eu gweithredu'n raddol, a fydd mae'n sicr yn gallach yn y pen draw.

Gethin Rhys 15.12.17

Parch./Revd Gethin Rhys

Swyddog Polisi'r Cynulliad Cenedlaethol / National Assembly Policy Officer

Cytun - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

 **Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English**

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071 | Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 05853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071